# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## MB (03-09) Paper 5 (Part 1)

**Dyddiad:** 26 Mawrth 2009
**Amser:** 9.30-11.30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Chris Koehli, Pennaeth Dros Dro Cyllid, est 8054

# Adroddiad Rheolaeth Ariannol:
# Y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2009

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y fewnrwyd.***

### Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw

1. Diben yr adroddiad hwn yw tynnu sylw'r Bwrdd Rheoli at y materion arwyddocaol sy'n effeithio ar berfformiad ariannol y Cynulliad ac, yn benodol:

   - Rhoi amcangyfrif o'r sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn;
   - Crynhoi'r perfformiad ariannol hyd yma yn ystod y flwyddyn, sef y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2009; a
   - Nodi'r risgiau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau ariannol y Cynulliad yn ystod gweddill y flwyddyn.

   Deiliaid cyllideb, gyda chymorth y Tîm Rheoli Ariannol, fydd yn parhau i reoli materion llai arwyddocaol o ddydd i ddydd.

2. Dyma'r ***negeseuon allweddol***:

   - Y tanwariant alldro a ragwelir ar hyn o bryd yw £1,030m sef 2.2% o'r gyllideb flynyddol ac mae ychydig yn fwy na'r goddefiant diwedd blwyddyn o 2%;
   - Mae'r tanwariant a ragwelir yn ystyried yr holl rwymedigaethau hysbys, gan gynnwys ceisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu ac sydd, felly, ar gael i dalu unrhyw gostau ychwanegol nad ydynt wedi'u nodi eto, er enghraifft, rhwymedigaethau ychwanegol yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad (gweler paragraff 8);
   - Mae'r gwariant a ragwelir yn cynnwys £566,000 sydd wedi'i ddangos o dan geisiadau posibl am arian o'r gronfa wrth gefn hen ei dyrannu. O'r swm hwn, mae £380,000 yn ymwneud â gwaith sydd wedi dechrau ond nad oes achosion busnes terfynol wedi'u cymeradwyo ar eu cyfer ac, oherwydd hynny, nid oes arian wedi'i ddyrannu'n ffurfiol ar eu cyfer i gyllidebau gwasanaethau. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i wella'r broses cynllunio busnes ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae

£100,000 arall yn ymwneud ag ad-drefnu'r Tîm Diogelwch ac ar ôl cael y gymeradwyaeth angenrheidiol bydd modd gwneud y taliadau ym mis Mawrth 2009.

- Mae tanwario, yn enwedig ar staffio, yn parhau. O gofio y bydd sefyllfa ariannol y Cynulliad yn anoddach y flwyddyn nesaf, byddwn yn fwy trylwyr wrth nodi newidiadau mewn patrymau gwario ac wrth greu proffiliau cyllidebau newydd. Caiff cynigion i gyflawni'r nod hwn eu cyhoeddi cyn bo hir gyda'r dyraniadau cyllideb newydd ar gyfer 2009-2010.
- Mae'r tanwariant a ragwelir £245,000 yn fwy na'r £785,000 a ragwelwyd ym mis Ionawr 2009; mae'r rhesymau dros y cynnydd hwn wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.

## Argymhellion

**3. Bod y Bwrdd yn:**

**a) yn adolygu'r perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn hyd yma;**

**b) yn nodi'r risgiau ac yn cymryd pob cam posibl i'w lliniaru, ac**

**c) yn cymryd camau i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy sicrhau bod y prosiectau sy'n cynnwys y ceisiadau posibl am £566,000 o'r gronfa wrth gefn yn parhau i gael eu rheoli'n ofalus rhwng nawr a 31 Mawrth 2009.**

## Trafodaeth

**<u>Y NEGESEUON ALLWEDDOL</u>**

***Yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn***

4. Amcangyfrifir mai'r alldro newydd a ragwelir fydd £45.151m yn erbyn cyllideb o £46.181m, sef tanwariant o £1.030m neu 2.2%. Mae hyn yn gynnydd o £245,000 o'i gymharu â'r ffigur a nodwyd ym mis Ionawr 2009.

5. Mae'r cynnydd yn y tanwariant a ragwelir o'i gymharu â'r ffigur a nodwyd ym mis Ionawr 2009 wedi'i osod allan isod:

| ***Rhesymau dros y cynnydd yn y tanwariant a ragwelir*** | ***Amrywiant (£'000)*** |
|---|---|
| • Gostyngiad yn yr alldro cyffredinol a ragwelir yn holl wasanaethau'r Cynulliad | (208) |
| • Gostyngiad yn y swm amcangyfrifedig y mae ei angen ar gyfer y System Rheoli Ymchwil yr Aelodau (gweler nodyn 6) | (60) |
| • Gostyngiad yn y swm y mae ei angen i adnewyddu Ystafell Bwyllgora 4 yn Nhŷ Hywel (gweler nodyn 6) | (29) |
| • Uned yr Heddlu (nid oes ei angen mwyach) | (105) |
| • **Is-gyfanswm** | **(402)** |
| • Cost ychwanegol peirannau sychu dwylo | 10 |
| • Cost ychwanegol oeryddion newydd | 11 |
| • Arian ychwanegol ar gyfer BF Proxy: gwella gweinyddwyr Technoleg Gwybodaeth i wella diogelwch a mynediad Aelodau i'r Rhyngrwyd. | 120 |

| | |
|---|---|
| • Arian ychwanegol ar gyfer hyfforddiant corfforaethol | 16 |
| **Cyfanswm** | **(245)** |

6. Mae'r gyllideb ar gyfer 2009-10 wedi'i chymeradwyo ac mae'r gwariant yr ymrwymwyd iddo ynghyd â'r angen i arbed £250,000 yn golygu mai prin y bydd modd ariannu prosiectau ychwanegol heb sicrhau arbedion cyfatebol mewn meysydd eraill.

***Y cyfnod a ddaeth i ben fis Chwefror 2009***

7. Nodwyd tanwariant o £1,199m ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2009. Gellir priodoli hyn yn bennaf i danwariant sylweddol yng nghyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, gan na hawliodd rhai Aelodau eu lwfansau llawn (£0.500m). Bu tanwariant hefyd yng nghyllideb Rheoli Ystadau a Chyfleusterau (£0.450m) gan na dderbyniwyd anfonebau am waith a phrosiectau amrywiol mewn da bryd, a bu tanwariant ar gostau staff yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a'r Uned Gorfforaethol (£0.100m yr un). Y flwyddyn nesaf, byddwn yn mabwysiadu dulliau mwy dibynadwy o nodi gorwariant a thanwariant ac o baratoi proffiliau newydd ar gyfer Cyllidebau Gwasanaethau.

## 8. <u>Risgiau - gwendidau</u>

Mae'r alldro a ragwelir ar hyn o bryd ychydig uwchlaw'r goddefiant o 2% ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae perygl y gall y tanwariant yn yr alldro a ragwelir gynyddu ymhellach os caiff prosiectau eu gohirio ac os na fydd modd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Os yw'r sefyllfa hon yn codi, bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb y flwyddyn nesaf.

Cynllun Pensiwn yr Aelodau – nid yw'r ddarpariaeth amcangyfrifedig wedi newid er bod penderfyniad Banc Lloegr i fwydo arian i'r economi eisoes wedi cael effaith gan fod yr incwm o giltiau wedi gostwng. Gallai hyn effeithio ar incwm o fondiau corfforaethol a bydd unrhyw ostyngiad mewn incwm yn debygol o leihau cyfradd y gostyngiad a chynyddu atebolrwydd y Cynllun Pensiwn.

Nid yw'r arbedion effeithlonrwydd o £1,207m a wnaed yn ystod y flwyddyn yn gylchol ac, o ganlyniad, ni fyddant yn cyfrannu at y targed effeithlonrwydd o £250,000 ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae gwybodaeth am arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn i'w chael yn nodyn 7.

## 9. <u>Cyfleoedd - cryfderau</u>

Rydym yn parhau i arbed arian a chafodd yr arbedion eu trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu. Nodwyd £0.225m ychwanegol ym mis Chwefror 2009 (gweler nodyn 5 yn yr atodiad). Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau posibl am arian o'r gronfa wrth gefn i'w gweld yn nodyn 6 yn yr atodiad

✓ Mae'r perfformiad cyllidebol yn gyffredinol ar gyfer mis Chwefror 2009 o fewn y goddefiant o 5%, ac mae rhagor o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau unigol i'w chael yn nodyn 1 yn yr atodiad.

Y SEFYLLFA ARIANNOL

### 1. *Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Chwefror 2008- 09*

| **Gwasanaeth** | **Cyllideb a bennwyd (£'000)** | **Gwir wariant hyd yma(£'000)** | **Cyllideb sy'n weddill ar gyfer y cyfnod (£'000)** | **Amrywiant %** | **Cyllideb flynyddol 2009-10 (£'000)** | **Gor / tanwariant a ragwelir(-) (£'000)** | **Alldro a ragwelir (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 1,550 | 1,453 | 97 | 6 | 1,671 | 98 | 1,573 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 426 | 415 | 11 | 3 | 487 | 3 | 484 |
| | **1,976** | **1,868** | **108** | **6** | **2,158** | **101** | **2,057** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,287 | 1,355 | -68 | -5 | 1,431 | -10 | 1,441 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 9,567 | 9,122 | 445 | 5 | 10,510 | -205 | 10,715 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 705 | 645 | 60 | 8 | 790 | 72 | 718 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 11,314 | 10,814 | 500 | 4 | 13,664 | 1,345 | 12,319 |
| TGCh | 3,514 | 3,496 | 18 | 1 | 4,684 | -1 | 4,685 |
| Cyfathrebu Allanol | 1,681 | 1,664 | 17 | 1 | 2,100 | -20 | 2,120 |
| | **28,068** | **27,096** | **972** | **3** | **33,179** | **1,181** | **31,998** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 1,455 | 1,447 | 8 | 1 | 1,604 | 12 | 1,592 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 797 | 794 | 3 | 0 | 877 | - | 877 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol | 1,648 | 1,555 | 93 | 6 | 1,880 | 85 | 1,795 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 991 | 981 | 10 | 1 | 1,091 | 16 | 1,075 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 89 | 84 | 5 | 5 | 98 | 2 | 96 |
| | **4,980** | **4,861** | **119** | **2** | **5,550** | **115** | **5,435** |
| Is-gyfanswm | **35,024** | **33,825** | **1,199** | **3** | **40,887** | **1,397** | **39,490** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | **-** | **-** | **-** | **-** | 4,775 | -320 | 5,095 |
| Is-gyfanswm | - | - | - | - | **45,662** | **1,077** | **44,585** |
| Wrth gefn | - | - | - | - | 519 | -47 | 566 |
| **Cyfansymiau** | **35,024** | **33,825** | **1,199** | **3** | **46,181** | **1,030** | **45,151** |


## 2. *Eglurhad o'r amrywiannau sylweddol yn yr alldro a ragwelir (+/- 2%) neu £100,000*

| Gwasanaeth | Amrywiant (£'000) | Rheswm dros yr amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 5.9% yn llai na'r gyllideb 98 | Swyddi gwag yn y gwasanaeth sy'n creu'r tanwariant. | Cyfarfod â Rheolwr y Gyllideb ar 17 Mawrth i drafod y goblygiadau ar gyfer y gyllideb eleni a'r flwyddyn nesaf. |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 1.9% yn fwy na'r gyllideb 205 | Costau cyflogau staff diogelwch yn bennaf, gan gynnwys taliadau goramser (200) | Defnyddir arian o'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu (arbedion a wnaed mewn meysydd eraill yn y Cynulliad) i dalu'r swm a orwariwyd. Mae'r gwasanaethau diogelwch yn cael eu had-drefnu a bydd hynny'n lleihau'r costau'n gyffredinol yn 2009/10. |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 10% yn llai na'r gyllideb 1,345 | Y prif reswm yw arian dros ben (513), darpariaeth pensiwn (384) ac Aelodau nad ydyn yn hawlio'u lwfansau llawn (448). | Mae adolygiad ar y gweill i asesu goblygiadau'r tanwariant ar ddyraniadau cyllideb y flwyddyn nesaf |
| Gwasanaethau Ariannol | 9% yn llai na'r gyllideb 72 | Tanwario ar gostau staff yn bennaf oherwydd swyddi gwag yn codi'n ystod y 3 mis diwethaf (65) | Caiff y swm a arbedwyd ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu |
| Addasiad oherwydd gostyngiad yng ngwerth y Pierhead | 6.7% yn fwy na'r gyllideb 320 | I adlewyrchu'r gostyngiad sylweddol yng ngwerth yr adeilad ar y farchnad yn ystod y cyfnod, yn ôl gofynion FRS 11. | Wedi'i gynnwys yn y rhagolygon diwedd blwyddyn. |

| Gwasanaeth | Amrywiant (£'000) | Rheswm dros yr amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|---|
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 5% yn llai na'r gyllideb 445 | Ni ddaeth anfonebau disgwyliedig i law yn ystod mis Chwefror (443). Oni bai am hyn, yr amrywiant cyffredinol ar gyfer y gyllideb hon fyddai 0% | Caiff yr anfonebau hyn eu talu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac yna bydd gwariant yn cyd-fynd â'r gyllideb a bennwyd. |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 4% yn llai na'r gyllideb 500 | Ni hawliodd yr Aelodau eu lwfansau llawn a hawliodd yr Aelodau a'u staff lai o gostau teithio a chynhaliaeth na'r disgwyl. | Mae adolygiad ar y gweill i asesu goblygiadau'r tanwariant hwn ar ddyraniadau'r gyllideb y flwyddyn nesaf. |
| Yr Uned Gorfforaethol | 6% yn llai na'r gyllideb 97 | Swyddi gwag yn bennaf | Cyfarfod â Rheolwr y Gyllideb ar 17 Mawrth i drafod y goblygiadau ar gyfer cyllideb eleni a'r flwyddyn nesaf. |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 6% yn llai na'r gyllideb 93 | Swyddi gwag yn bennaf (80) | Yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cyllideb eleni a'r flwyddyn nesaf . |
| Gwasanaethau Ariannol | 8% yn llai na'r gyllideb 59 | Swyddi gwag yn bennaf | Caiff y tanwariant ei drosglwyddo'n ôl i'r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu. |

3. ***Eglurhad o'r amrywiannau sy'n fwy na'r goddefiant o 5% neu £100,000 ar gyfer y cyfnod hyd at fis Chwefror 2009***

## 4. *Y gyllideb a bennwyd yn erbyn y gwir wariant hyd yma – yn ôl natur y gwariant*



## 5. *Arian a drosglwyddwyd*

| **Balans y gronfa wrth gefn heb ei dyrannu:** | Rhyddhawyd o gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Dyrannwyd i gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Balans y gronfa wrth gefn heb ei dyrannu ddiwedd y mis (£'000) |
|---|---|---|---|
| *Balans gweithredol agoriadol 01/04/08* | - | - | *1,153* |
| Ebrill | 161 | 718 | 596 |
| Mai | - | - | 596 |
| Mehefin | - | 3 | 593 |
| Gorffennaf | 36 | 54 | 575 |
| Awst | - | 99 | 476 |
| Medi | - | 120 | 356 |
| Hydref | 215 | 88 | 483 |
| Tachwedd | | 35 | 448 |
| Rhagfyr | 160 | 298 | 310 |
| Ionawr | 410 | - | 720 |
| Chwefror | 225 | 426 | 519 |
| **Cyfanswm** | **1,207** | **1,841** | **519** |
| Tanwariant a ragwelir yn y gwasanaethau | | | 1,077 |
| Ceisiadau posibl am arian | | | -566 |
| **Tanwariant posibl** | | | **1,030** |

## 6. Ceisiadau posibl am arian o’r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu

| Gwasanaeth | Ceisiadau posibl am arian | Amcangyfrif o werth (£’000) y ceisiadau posibl am arian ar 31 Ionawr 2009 | Y sefyllfa ar 28 Chwefror 2009 | Amcangyfrif o werth (£’000) y ceisiadau ychwanegol ym mis Chwefror 2009 | Rhyddhawyd i’r gronfa wrth gefn ym mis Chwefror 2009 (£’000) | Dyrannwyd o’r gronfa wrth gefn i gyllideb gwasanaeth ym mis Chwefror 2009 (£’000) | Amcangyfrif o werth y ceisiadau posibl am arian ar 28 Chwefror 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Prif Weinidog Cymru** | Uned yr Heddlu – amcangyfrif o gostau gwaith ychwanegol | 105 | Nid oes ei angen mwyach | | 105 | | |
| | Adnewyddu 3A – **Trosglwyddwyd o gyllideb 2009-10** | 300 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes terfynol. | | | | 300 |
| | Newidiadau yn Swyddfa’r Gogledd | 20 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes terfynol. | | | | 20 |
| | Oeryddion newydd yn Nhŷ Hywel | 100 | Wedi’i ddyrannu ynghyd â chynnydd yn y gost amcangyfrifedig | 11 | | 111 | |
| | Gwaith i wella cynaliadwyedd – lagio peipiau | 35 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes terfynol | | | | 35 |
| | Gosod peiriannau sychu dwylo yn Nhŷ Hywel | 15 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes terfynol | 10 | | | 25 |
| | Ad-drefnu diogelwch | 100 | Cafwyd cytundeb â’r staff a chafwyd y gymeradwyaeth angenrheidiol ym mis Mawrth | | | | 100 |
| **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau TGCh** | System Rheoli Gwybodaeth TCGh | 60 | Nid oes ei angen mwyach | | 60 | | |
| | Creu Ystafell Bwyllgora 4 | 230 | Wedi’i ddyrannu. Rhyddhawyd yr arbedion a wnaed ar gyfarpar i’r gronfa wrth gefn heb ei dyrannu | | 29 | 165 | 36 |
| | Prosiect BF Proxy i wella diogelwch a mynediad Aelodau i’r rhyngrwyd | | **Cais newydd ym mis Chwefror** | 120 | | 120 | |
| | Arian wrth gefn ar gyfer ffioedd proffesiynol | 50 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 50 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau Adnoddau Dynol** | Cost Cronfa Bensiwn yr Aelodau | I'w gadarnhau | | | | | |
| | Hyfforddiant Corfforaethol | 14 | Wedi'i ddyrannu | 16 | | 30 | |
| | **CYFANSWM** | **1,029** | | **157** | **89** | **426** | **566** |

## 7. *Arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn*

| Gwasanaeth | Manylion | Effeithlonrwydd cylchol (£'000) | Effeithlonrwydd anghylchol (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ariannol | Dileu swydd EO | - | 27 |
| | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 36 |
| Adnoddau dynol | Ad-drefnu staff | - | 134 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 70 |
| | Ildiwyd arian ychwanegol fel y cytunwyd â Rheolwr y Gyllideb oherwydd tanwario sylweddol ar gostau staff | - | 42 |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 90 |
| | Ildiwyd arian ychwanegol fel y cytunwyd â Rheolwr y Gyllideb oherwydd tanwario sylweddol ar gostau staff | - | 106 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 30 |
| | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gyllideb Cynghori Tystion/Arbenigwyr | - | 50 |
| | Arian ychwanegol wedi'i ildio fel y cytunwyd â Rheolwr y Gyllideb oherwydd tanwario sylweddol ar gostau staff a lwfansau Teithio a Chynhaliaeth staff ac Aelodau | - | 77 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 55 |
| Y Gwasanaeth Cyfreithiol | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | | 55 |
| | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gyllideb gwasanaethau drafftio | - | 25 |
| | Ildiwyd arian fel y cytunwyd â Rheolwr y Gyllideb oherwydd tanwario sylweddol ar gyllideb gwasanaethau drafftio | - | 10 |
| Cyfathrebu Allanol | Ildiwyd arian oherwydd tanwario ar gostau staff (ni chafodd swyddi eu hildio) | - | 400 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **1,207** |